**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddChildren@senedd.wales

Ein cyf: VG-PO-004-24

10 Ionawar 2024

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Rwy'n sylwi bod y cwestiwn a ofynnwyd yn y llythyr yn debyg i'r hyn a ofynnoch yn y Senedd yn dilyn fy Natganiad Llafar ar y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau. Roeddech yn gofyn sut y gall y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau gefnogi rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc anabl i allu cael gwaith a'i gadw  yn ogystal â sut rydym yn sicrhau y gall teuluoedd gael mynediad at addysg a gofal plant sy'n hygyrch a chynhwysol ac yn rhoi cyfleoedd addysgol a chwarae i blant. O'r herwydd, rwyf wedi cyfuno fy ymateb i'r llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'ch cwestiynau  yn sgil y Datganiad Llafar.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn rhoi ymrwymiad i ariannu mwy o ofal plant i deuluoedd lle mae'r rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar fin cael gwaith i'w helpu i uwchsgilio, paratoi ar gyfer y farchnad lafur neu sicrhau cyflogaeth fwy cynaliadwy wrth ddelio â baich ariannol costau gofal plant. Mae'r ymrwymiad hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau.

Fel rhan o'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ehangu meini prawf cymhwysedd Cynnig Gofal Plant Cymru o fis Medi 2022. Mae'r Cynnig bellach yn cynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant, ac yn ei flwyddyn academaidd gyntaf fe gafodd 675 o rieni ychwanegol elwa ar y gefnogaeth.

Efallai y bydd y rhieni hynny nawr hefyd yn elwa ar Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant. Er mwyn sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig yn gynhwysol i blant cymwys sydd angen cymorth ychwanegol, mae cymorth ar gael i awdurdodau lleol drwy ffrwd ariannu ar wahân y cyfeirir ati fel Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant.  Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid hwn i helpu i sicrhau bod plant cymwys sydd ag



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

anghenion ychwanegol yn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn yr un ffordd â phlant cymwys eraill, gan gynnwys trwy gefnogaeth 1 i 1 ac offer arbenigol.

Yn 23/24, dyrannwyd £2m ar draws awdurdodau lleol i ymateb i'r anghenion hyn. Mae hwn yn grant sy'n seiliedig ar alw, ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth i rieni a lleoliadau gofal plant lle bo angen.

Nod Llywodraeth Cymru hefyd yw lleihau costau gofal plant drwy ariannu darpariaeth estynedig drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg. Mae Dechrau'n Deg wedi'i dargedu at blant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, rydym wedi ymrwymo i ehangu Dechrau'n Deg ar gyfer pob plentyn 2 oed yng Nghymru, ac wedi dechrau gweithredu hynny.

Mae canllawiau Dechrau'n Deg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a phlant sydd wedi'u hanablu mewn rhyw ffordd i'w galluogi i ymgysylltu â'r ddarpariaeth cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol ac er lles gorau'r plentyn. Mae canllawiau rhianta Dechrau'n Deg yn cydnabod y gallai fod angen ystyriaeth arbennig ar rai rhieni ac efallai y bydd angen i'r rhai sy'n darparu cymorth rhianta addasu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion penodol. Mae hyn yn cynnwys rhieni plant sydd wedi'u hanablu mewn rhyw ffordd a phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Dechreuodd ail gam y rhaglen ehangu ym mis Ebrill 2023 ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar ehangu gofal plant Dechrau'n Deg i ragor o blant dyflwydd oed. Rydym yn disgwyl cefnogi mwy na 9,500 yn ychwanegol o blant dyflwydd oed ledled Cymru i gael mynediad at ofal plant Dechrau'n Deg o safon yn yr ail gam yn ystod 2023-24 a 2024-25.

Ein cenhadaeth genedlaethol yw cyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb, gan sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad i'r addysg y mae ganddynt hawl iddi. Dyna pam mae tegwch a chynhwysiant wrth wraidd y newidiadau rydym yn eu gwneud i'r system addysg yng Nghymru. Amlygwyd hyn yn y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor ar 29 Tachwedd 2023, gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, ynghyd â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i fynediad plant anabl i ofal plant ac addysg.

Mae gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru yn rhan allweddol o'r newidiadau ym myd addysg yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau, pan fydd gofyn am Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol ar gyfer dysgwyr 0-25 oed, i ddiwallu angen dysgu ychwanegol, bod y ddarpariaeth honno wedi'i chynllunio'n briodol a'i gwarchod mewn cynllun statudol o'r enw Cynllun Datblygu Unigol. Mae'r Ddeddf yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r ffordd newydd hon o weithio yn rhoi plant a theuluoedd yn y canol ac yn sicrhau eu bod yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar benderfyniadau a wneir.

Er mwyn ein helpu i ddeall a yw'r system newydd yn diwallu anghenion, rydym wedi ariannu SNAP Cymru i ddarparu digwyddiadau gwybodaeth sy'n berthnasol i Anghenion Dysgu Ychwanegol i rieni a gofalwyr ar ein rhan. Rydym yn gwrando ar y profiadau personol sy'n cael eu rhannu gan deuluoedd yn y digwyddiadau hyn.

I glywed lleisiau plant, rydym wedi ariannu Plant yng Nghymru i sefydlu rhaglen gyfranogi i gynyddu lleisiau ifanc pwerus dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a dysgwyr anabl gan roi'r cyfle a'r gefnogaeth iddynt ddweud wrthym am eu taith addysg yn eu geiriau eu hunain.

Bydd adborth a phrofiad plant a'u teuluoedd yn chwarae rhan hanfodol yn y gwerthusiad parhaus o effeithiolrwydd y system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Maent yn

cyfrannu'n aruthrol at ein dealltwriaeth o'r modd y mae'r system newydd yn gweithredu ar lawr gwlad.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod pob rhiant a gofalwr yn gallu cael a chadw gwaith, gan gynnwys y rhai sydd â phlant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy